S4C /

# Dylunydd Graffeg - 12 mis

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

## Pam ymuno ag S4C?

Yn S4C, rydym yn angerddol am greu amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu Pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno ag S4C fel Dylunydd Graffeg, gan gyfrannu at ddyfodol sy'n ysbrydoli, diddanu ac adlewyrchu Cymru gyfan wrth i ni weithredu ein strategaeth newydd - ***S4C - Mwy na Sianel Deledu*** - wrth i ni ehangu ein gwylio gyda'n cynnwys a datblygu ein gwasanaeth Digidol yn Gyntaf.

## Trosolwg o'r Swydd

Fel Dylunydd Graffeg, byddwch yn gyfrifol am ddylunio amrywiaeth o gynnwys digidol a phrint ar gyfer adran Brand a Chreadigol S4C, ochr yn ochr â chreu mân-luniau ysgogol ar gyfer ein portffolio cynyddol o blatfformau ffrydio. Fel Dylunydd Graffeg, byddwch yn datblygu atebion gweledol creadigol ac arloesol sy'n dod â negeseuon yn fyw, yn ennyn diddordeb cynulleidfaoedd, ac yn gwella'r berthynas rhwng S4C a'i rhanddeiliaid.

Gan gyfuno barn greadigol a sgiliau argraffyddol cryf â sgiliau rheoli asedau rhagorol, byddwch yn sicrhau bod delweddau ar draws portffolio'r darlledwr yn weledol rymus, yn cyd-fynd â'r brand ac yn gwneud y defnydd gorau ohonynt ar gyfer ennyn sylw'r gynulleidfa.

Gan ddefnyddio eich arbenigedd mewn dylunio graffeg a chyfathrebu gweledol, byddwch yn creu, mireinio a rheoli asedau gweledol sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo rhaglenni, twf y gynulleidfa ac adrodd straeon corfforaethol ar draws platfformau darlledu, ffrydio, digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Mae hwn yn amser cyffrous i ymuno â'n tîm creadigol wrth i ni barhau i ddatblygu ein prosesau mewnol ar gyfer dyfodol darlledu newydd sy'n cynnwys gwasanaethau ffrydio ac aml-blatfform.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Dylunydd Graffeg byddwch yn:

- Cydweithio ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu, a thimau mewnol S4C, er mwyn darparu atebion creadigol effeithiol.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a chyflwyno ymgyrchoedd marchnata integredig ar draws sawl platfform a sianeli cyfryngau.
- Cynhyrchu cysyniadau creadigol gwreiddiol a dyluniadau diddorol, cynlluniau hygyrch sy'n cael effaith weledol gan ddefnyddio argraffwaith, delweddau ac egwyddorion brandio cryf.
- Creu gwaith celf ar gyfer amrywiaeth o sianeli a fformatau, gan gynnwys y tu allan i'r cartref, sgriniau digidol, datblygu brandio ac ymgyrchoedd aml-blatfform.
- Defnyddio canllawiau brand mewnol ac allanol yn gyson, gan sicrhau bod yr holl waith yn adlewyrchu hunaniaeth weledol S4C ac yn cynnal safonau dylunio uchel.

- Gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol er mwyn deall gofynion prosiect, datblygu ymatebion creadigol i friffiau, a chyflwyno cysyniadau ac atebion dylunio.
- Defnyddio meddalwedd dylunio o safon y diwydiant, gan gynnwys Adobe Photoshop, Illustrator, InDesign ac After Effects, ar gyfer creu a chyflwyno asedau creadigol o ansawdd uchel.
- Defnyddio egwyddorion dylunio craidd fel cydbwysedd, cyferbyniad, hierarchaeth, alinio a bylchu ar gyfer cynhyrchu cyfathrebu gweledol effeithiol.
- Sicrhau cywirdeb a sylw i fanylion ym mhob allbwn dylunio, gan nodi a chywiro anghysondebau wrth gynnal safonau o ansawdd uchel.
- Blaenoriaethu llwythi gwaith yn effeithiol, rheoli nifer o brosiectau ar yr un pryd a chyflawni gwaith i derfynau amser y cytunwyd arnynt.
- Dylunio cynnwys ar gyfer ystod amrywiol o gynulleidfaoedd, gan deilwra dulliau creadigol ar gyfer gwahanol blatfformau ac anghenion defnyddwyr.
- Cyfrannu at gyflawni ymgyrchoedd blaenoriaeth a mentrau tymhorol, gan gynnwys digwyddiadau mawr, lansio rhaglenni a gweithgareddau corfforaethol.
- Cysylltu â'r tîm Marchnata a chwmnïau cynhyrchu allanol ar gyfer datblygu celf allweddol, asedau hyrwyddo a deunyddiau ymgyrchu sy'n cefnogi marchnata rhaglenni a thwf cynulleidfaoedd.
- Creu, golygu a gwella delweddau ar gyfer catalog rhaglenni S4C yn Gymraeg a Saesneg.
- Cefnogi'r tîm graffeg a ffotograffiaeth ehangach gydag ystod o ofynion dylunio, gan gynnwys creu mân-luniau, nodi a datblygu ffotograffiaeth/delweddau mwyaf effeithiol er mwyn cefnogi marchnata rhaglenni ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd, creu deunydd hyrwyddo, dylunio creu logos ac asedau ymgyrchu.
- Gwerthuso llwyddiant eich gwaith yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt, gan ddefnyddio adborth, data a barn broffesiynol er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni canlyniadau ystyrlon, gwerth am arian a gwelliant parhaus.
- Gweithio i reolau masnach deg S4C wrth archebu argraffiadau a nwyddau.
- Disgwylir i chi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n codi o bryd i'w gilydd.

**Y math o berson rydyn ni'n chwilio amdano:**

- Rhywun sy'n gallu cyfrannu'n hyderus at syniadau creadigol.
- Unigolyn sydd â phrofiad o weithio i ganllawiau brand.
- Gyda phrofiad amlwg o weithio i derfynau amser/amserlenni tynn, gweithio ar brosiectau lluosog ar yr un pryd.
- Unigolyn â phrofiad o weithio gydag amrywiaeth eang o asedau a chanllawiau.
- Rhywun sy'n gallu cyfathrebu, cydlynu a rheoli disgwyliadau yn effeithiol gydag ystod eang o randdeiliaid; mewnol ac allanol.
- Meddylfryd chwilfrydig a hyblyg, gyda brwdfrydedd gwirioneddol dros archwilio tueddiadau dylunio newydd, croesawu arloesedd, a dysgu offer a thechnolegau newydd yn barhaus.

**Byddwch yn llwyddo yn y rôl hon os:**

- Ydych yn Ddylunydd Graffeg profiadol sy’n angerddol am greu cynnwys gweledol deniadol o ansawdd uchel.
- Oes gennych sgiliau creadigol a thechnegol da (Adobe Suite), gyda hyder mewn creu asedau digidol a golygu delweddau.
- Ydych yn drefnus iawn, yn canolbwyntio ar fanylion ac yn gallu cydbwyso blaenoriaethau lluosog wrth gwrdd â therfynau amser.
- Oes gennych ddiddordeb gwirioneddol yng nghynnwys S4C a'r cynulleidfaoedd rydym yn eu gwasanaethu.
- Ydych yn hunan-gymhellol, gyda meddylfryd chwilfrydig a hyblyg ac yn ffynnu wrth weithio'n annibynnol, tra hefyd yn gweld gwerth mewn cydweithio a gwaith tîm.

S4C /

- Ydych yn mwynhau meithrin perthnasoedd cadarnhaol a gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid er mwyn dod â syniadau'n fyw.
- Ydych yn gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan addasu eich dull ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

**Yn ystod y tri mis cyntaf bydd disgwyl i chi:**

- Ddeall hunaniaeth brand, canllawiau arddull, a safonau dylunio S4C.
- Defnyddio meddalwedd dylunio gofynnol yn fedrus a gweithio yn unol â llifoedd gwaith mewnol.
- Cwblhau tasgau dylunio a neilltuwyd i chi yn gywir a phrydlon.
- Gweithio'n annibynnol a chyfathrebu'n rhagweithiol â'r tîm brand a delwedd, a chyfrannu'n gadarnhaol gyda thîm ehangach a rhanddeiliaid sefydliadol eraill.
- Cynnal ffeiliau prosiect trefnus a chadw at safonau ansawdd.
- Cyfathrebu cynnydd ac unrhyw heriau mewn modd amserol.
- Dangos proffesiynoldeb, dibynadwyedd, ac agwedd gadarnhaol yn unol â'n gwerthoedd sefydliadol.

**Byddwch hefyd:**

- Yn ymwybodol o strategaeth S4C, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl yr angen, sy'n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, diogelu data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Â llygad dda am ddylunio ynghyd â deall sut mae graffeg yn gweithio ochr yn ochr â ffotograffiaeth.
- Yn cyfrannu mewn ffordd gadarnhaol tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Yn cyfrannu at a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Yn cydweithio â'ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Yn gwneud yn siŵr eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy'n datblygu gwasanaethau gwych i'n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysol sy'n trin pawb â pharch.

**Beth fyddwch chi'n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy'n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg yn un o'n swyddfeydd yng Nghymru.
- Mae S4C wedi ymrwymo i dwf personol ei weithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu cynhwysfawr i wella sgiliau a hybu gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus lle bo'n briodol.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector cyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau, rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hyrwyddo a chadw'r iaith a'r diwylliant Cymraeg drwy eu gwaith.
- Mae S4C yn cynnig Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu'n raddol hyd at 32 diwrnod mewn 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch â pobl@s4c.cymru.

S4C /

Yn eich cais, gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu sylw at y sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam rydych chi'n addas ar gyfer y swydd.

## Manyleb y Person

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig. | |
| **Cymwysterau** | | Gradd baglor mewn Dylunio Graffeg neu brofiad proffesiynol cyfatebol. |
| **Profiad** | Profiad blaenorol fel Dylunydd Graffeg, gyda phortffolio cryf yn dangos creadigrwydd, cyfathrebu gweledol ac arbenigedd dylunio.<br><br>Profiad blaenorol o weithio ar draws amrywiaeth eang o brosiectau/ymgyrchoedd gyda rhanddeiliaid amrywiol.<br><br>Profiad blaenorol o ddefnyddio Adobe Creative Suite mewn cyd-destun proffesiynol.<br><br>Profiad blaenorol o weithio mewn rôl Dylunio Graffeg amrywiol ac amlddisgyblaethol (e.e. Dylunio brandiau a logos, Teipograffeg a dylunio cynlluniau, Theori lliw a chyfansoddiad gweledol, Golygu ac thwtio lluniau, Darlunio digidol a chysyniadau creadigol).<br><br>Profiad blaenorol o weithio ar brosiectau lluosog ar yr un pryd, gan reoli disgwyliadau rhanddeiliaid (mewnol ac allanol).<br><br>Profiad blaenorol o ddylunio a chreu graffeg cyfryngau cymdeithasol, Dylunio deunyddiau marchnata Golygu asedau a delweddau digidol, Gweithio gyda ffotograffiaeth a chynnwys gweledol, Paratoi ffeiliau ar gyfer cyhoeddiadau argraffu a digidol | Profiad o greu mân-luniau ar gyfer platfformau digidol.<br><br>Dealltwriaeth o'r amgylchedd cyfryngau aml-blatfform.<br><br>Deall byd darlledu Cymru a'r DU. |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Cyfathrebwr da yn y Gymraeg a'r Saesneg (ar lafar ac yn ysgrifenedig).<br><br>Gwybodaeth fanwl o Adobe Photoshop, Adobe Illustrator ac Adobe InDesign. | Deall Adobe After Effects. |

S4C

| | | |
|---|---|---|
| | Crebwyll dylunio da, gyda'r gallu i wneud penderfyniadau creadigol gwybodus sy'n cydbwyso anghenion y gynulleidfa, gofynion brand ac amcanion prosiect.<br><br>Gwybodaeth dechnegol arbenigol o fathau o ffeiliau graffeg a delweddau Yn gallu creu a golygu cynnwys gweledol ac asedau digidol yn hyderus ar draws ystod o blatfformau a fformatau (e.e. cyfryngau cymdeithasol, ffotograffiaeth, deunyddiau marchnata, asedau digidol).<br><br>Sgiliau cyfathrebu gweledol da a hyfedredd wrth greu a golygu asedau digidol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd a phlatfformau.<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gyda'r gallu i reoli prosiectau lluosog ar yr un pryd wrth gyflawni gwaith cywir, o ansawdd uchel i derfynau amser tynn.<br><br>Gallu profedig o feithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol a chyfrannu at amgylchedd tîm llwyddiannus.<br><br>Sgiliau gweinyddol a threfniadol da gyda sylw da i fanylion<br><br>Defnyddio Microsoft Office 365 yn hyderus. | |
| **Nodweddion Personol** | Brwdfrydedd a pharodrwydd i ddysgu sut i ddefnyddio pecynnau meddalwedd eraill sy'n benodol i gynnal a chadw'r adran.<br><br>Sgiliau cynllunio.<br><br>Sgiliau rhyngbersonol cryf.<br><br>Sgiliau trefnu rhagorol, gan gynnwys y gallu i flaenoriaethu llwythi gwaith amrywiol gyda therfynau amser gwahanol.<br><br>Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb.<br><br>Gallu gweithio mewn modd hyblyg a chadarnhaol.<br><br>Cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. | |

S4C /

## Manylion eraill

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 2 ddiwrnod mewn swyddfa a gweithio yn y swyddfa’n barhaus am y pythefnos cyntaf ar gyfer hyfforddiant pellach - mae'r hyfforddiant hwn yn debygol o gael ei gynnal yn ein swyddfa/swyddfeydd yng Nghaerfyrddin neu Gaerdydd) |
| **Cyflog:** | £39,403.00 y flwyddyn |
| **Contract:** | 12 mis |
| **Oriau gwaith:** | 35.75 yr wythnos. Rydym yn hapus i drafod oriau gwaith ac i ystyried ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n chwilio am waith hyblyg neu ran-amser. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio y tu allan i oriau swyddfa, rhai penwythnosau a gwyliau banc. |
| **Gwyliau:** | Yn ogystal â'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi'n rhan-amser, byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau. |
| **Pensiwn:** | Mae gan staff cyflogedig hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn amodol ar delerau unrhyw gynllun presennol sy'n cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd. Os ydych chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%. |
| **Teithio:** | Bydd teithio achlysurol yn rhan o'r swydd, fel arfer o fewn y DU |

## Ceisiadau

Dylid anfon ceisiadau erbyn **12yp, 1 Medi 2026**. Nid ydym yn derbyn CV.

**Dyddiad Cyfweliadau: 11 Medi 2026**, lleoliad i'w gadarnhau.

Os byddwch yn dewis defnyddio deallusrwydd artiffisial neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn gywir, yn onest ac yn adlewyrchu eich profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu rai sydd wedi'u cynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio deallusrwydd artiffisial neu offer recordio, oni bai eu bod wedi'u cytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd anawdurdodedig arwain at dynnu eich cais yn ôl.

S4C /

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (ac eithrio lle mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae wedi ymrwymo i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd sy'n gadarnhaol o safbwynt y swydd.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys pobl ddu, grwpiau ethnig lleiafrifol a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a gwneir penderfyniadau ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.